

Dangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol arfaethedig sy'n cael eu mesur gan ddefnyddio'r Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae'r ddogfen hon yn nodi pa ddangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol arfaethedig a allai gael eu casglu drwy'r Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'n gosod allan cwestiynau'r arolwg fel y maent yn holiadur drafft 2016-17. Bydd unrhyw newidiadau i'r dangosyddion a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei adlewyrchu yn yr arolwg yn y blynyddoedd i ddod.

Bydd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn darparu data o ansawdd uchel. Mae'n defnyddio cynllun hap-sampl, sef y 'safon aur' ar gyfer arolygon cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod ymatebwyr yn cael eu dewis ar hap i sicrhau bod y canlyniadau mor gynrychioliadol â phosibl o'r gymdeithas gyfan, gan gynnwys y grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, fel gweithwyr ifanc. Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yng nghartrefi ymatebwyr gan gyfwelwyr proffesiynol a hyfforddedig, sy'n helpu ansawdd y data drwy gael cyfradd ymateb uchel. Bydd yn holi sampl o 12,000 o bobl y flwyddyn. Er mai canran fechan o boblogaeth Cymru yw hon, pan gynlluniwyd yn gywir (fel mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi cael ei gynllunio) mae'r maint sampl hon yn ddigon i roi canlyniadau o safon uchel a chynrychioliadol sy'n creu darlun o Gymru yn ei chyfanrwydd. Mae hefyd, yn caniatáu dadansoddiad gan wahanol is-grwpiau o'r boblogaeth ac ardaloedd awdurdodau lleol.

Lle y bo'n bosibl, mae cwestiynau'r arolwg wedi cael eu cymryd o arolygon mawr eraill wyneb yn wyneb sy'n golygu eu bod yn gweithio'n dda ac yn caniatáu i'r canlyniadau gael eu cymharu dros amser a chyda gwahanol wledydd. Cafodd cwestiynau newydd yr Arolwg Cenedlaethol eu profi a'u mireinio i sicrhau eu bod yn casglu gwybodaeth gadarn.

Mae'r arolwg yn cael ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a bydd yn cael ei asesu'n annibynnol ar gyfer ei hansawdd gan yr Awdurdod Ystadegau y Deyrnas Unedig.

| | |
|---|---|
| 3 | Mae pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw |
| Wedi'i fesur yn ôl | Y ganran o'r oedolion (16+ oed) sydd â phedwar neu bum ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw (peidio ag ysmegu, pwysau iach, bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau y dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a dilyn y canllawiau o ran gweithgarwch corfforol). |
| Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru | Ysmegu – A ydynt yn ysmegu, ac os felly pa mor aml? Pwysau iach – Cyfrifo BMI gan ddefnyddio uchder a phwysau'r ymatebydd Bwyta pum ffrwyth neu lysiau bob dydd – Cyfres o gwestiynau am y ffrwythau a llysiau a fwyteir ddoe Dim yfed yn fwy na'r canllawiau – Cyfres o gwestiynau sy'n mesur faint o alcohol y mae pobl yn yfed yn arferol a dros y saith diwrnod diwethaf |

| | |
|--|--|
| | <p>Bodloni canllawiau gweithgaredd corfforol</p> <p>– Amser a dreulwyd yn cerdded, a gwneud gweithgarwch corfforol cymedrol ac egnïol yn ystod y 7 diwrnod diwethaf</p> |
|--|--|

| | |
|---|---|
| 13 | Pobl sy'n gallu fforddio nwyddau a gweithgareddau pob dydd |
| Wedi'i fesur yn ôl | Cwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol a ddefnyddir i lunio mesur o'r ganran o'r aelwydydd sydd mewn amddifadedd sylweddol. |
| Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru | <p>Tair set o gwestiynau am amddifadedd materol cartrefi, pensiynwyr a phlant. Enghraifft o gwestiynau bob set:</p> <p>Cartrefi</p> <ul style="list-style-type: none"> – Oes gennych chi (a'ch teulu / a'ch partner) ddigon o arian i gadw eich cartref wedi ei addurno'n dda? <p>Pensiynwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> – Ydych chi'n mynd i drin neu dorri'ch gwallt yn rheolaidd? <p>Plant</p> <ul style="list-style-type: none"> – Oes gan eich plentyn got gynnes ar gyfer y gaeaf? <p>Datblygwyd y cwestiynau am amddifadedd materol i'w defnyddio yn yr Arolwg Adnoddau Teuluoedd. Mae sgôr amddifadedd materol cyffredinol yn cael ei chyfrifo ar gyfer pob ymatebydd yn seiliedig ar eu hatebion.</p> |

| | |
|---|--|
| 14 | Pobl sy'n fodlon yn eu gwaith |
| Wedi'i fesur yn ôl | Y gyfran o'r bobl mewn gwaith sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith. |
| Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru | Ar raddfa o ddim i 10, lle mae dim yn golygu 'ddim yn fodlon o gwbl' a 10 yn golygu 'yn hollol fodlon', ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi gyda'ch swydd ar hyn o bryd? |

| | |
|---|--|
| 15 | Pobl sy'n fodlon ar yr ardal y maent yn byw ynddi |
| Wedi'i fesur yn ôl | Y ganran sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw. |
| Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru | Ar y cyfan, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'ch ardal leol fel lle i fyw? |

| | |
|---|---|
| 16 | Naws cymuned |
| Wedi'i fesur yn ôl | Y ganran o bobl, pan ofynnir iddynt, sy'n cytuno eu bod yn perthyn i ardal, bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyddynnu'n dda, a hefyd eu bod yn trin ei gilydd â pharch. |
| Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru | <p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol...?</p> <ul style="list-style-type: none"> – rwy'n perthyn i fy ardal leol. – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn. – Mae pobl yn fy ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac urddas. |

| | |
|---|---|
| 17 | Mae pobl yn teimlo y gallant gyfrannu at benderfyniadau lleol |
| Wedi'i fesur yn ôl | Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol sy'n effeithio ar eu hardal leol. |
| Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru | <p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"> – Rwy'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol. |

| | |
|---|---|
| 18 | Pobl sy'n gwirfoddoli |
| Wedi'i fesur yn ôl | Y gyfran o'r bobl sy'n gwirfoddoli. |
| Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru | <p>Gwirfoddoli yn ffurfiol</p> <ul style="list-style-type: none"> – Pa rai o'r clybiau a'r sefydliadau hyn, os o gwbl, ydych chi'n rhoi amser iddyn nhw am ddim ar hyn o bryd? <ul style="list-style-type: none"> ○ Corff elusennol ○ Ysgol neu grŵp person ifanc ○ Grŵp tenantiaid / preswylwyr neu warchod cymdogaeth ○ Grŵp crefyddol ○ Grŵp / sefydliad pensiynwyr ○ Clwb chwaraeon ○ Grwpiau celfyddydol (megis drama, cerddoriaeth, celf neu grefft) ○ Grŵp amgylcheddol ○ Clwb neu sefydliad arall ○ Dim un o'r rhain – Tua faint o oriau yw'r cyfanswm rydych chi wedi'i dreulio yn helpu'r clwb / clybiau neu sefydliad[au] hwn/hyn dros y pedair wythnos diwethaf? <p>Datblygwyd y cwestiynau uchod i'w defnyddio yn yr Arolwg Cenedlaethol 2016-17 ar ôl adolygu dulliau presennol o fesur gwirfoddoli mewn arolygon cartref eraill.</p> |

| | |
|--|---|
| | <p>Gwirfoddoli yn anffurfiol / gofalu</p> <ul style="list-style-type: none"> - A ydych chi'n gofalu am aelodau o'ch teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill, neu'n rhoi unrhyw help neu gymorth iddynt, oherwydd salwch neu anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint? <ul style="list-style-type: none"> o Nac ydw o Ydw, 1-19 awr yr wythnos o Ydw, 20-49 awr yr wythnos o Ydw, 50+ awr yr wythnos |
|--|---|

| | |
|---|--|
| 19 | Pobl sy'n fodlon ar eu gallu i gael at gyfleusterau a gwasanaethau |
| Wedi'i fesur yn ôl | Mesur goddrychol o fodlonrwydd pobl ar eu gallu i gyrraedd/cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Heb ei ddatblygu eto. |
| Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru | I'w datblygu ar gyfer Arolwg Cenedlaethol 2017-18. |

| | |
|---|--|
| 20 | Pobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau |
| Wedi'i fesur yn ôl | Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel ym mhob un o'r sefyllfaoedd canlynol: gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio (pob dull cludiant). |
| Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru | <ul style="list-style-type: none"> - Ydych chi'n teimlo'n ddiogel yn cerdded yn eich ardal wedi iddi dywyllu? - Pa mor ddiogel neu anniogel byddwch chi'n ei deimlo yn y sefyllfaoedd canlynol? <ul style="list-style-type: none"> o Gartref wedi iddi dywyllu o Wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi o Wrth deithio mewn car wedi iddi dywyllu |

| | |
|---|---|
| 21 | Pobl sy'n teimlo'n unig |
| Wedi'i fesur yn ôl | Graddfa unigrwydd De Jong Gierveld. |
| Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru | <p>Nodwch ar gyfer pob un o'r datganiadau canlynol, i ba raddau y maen nhw'n berthnasol i'ch sefyllfa, y ffordd rydych chi'n teimlo yn awr.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Rwy'n teimlo gwacter yn gyffredinol. - Rwy'n gweld eisiau cael pobl o fy nghwmpas. - Rwy'n aml yn teimlo fel fy mod yn cael fy niystyru. - Mae digonedd o bobl rwy'n gallu dibynnu arnyn nhw pan fod gen i broblemau. - Mae llawer o bobl rwy'n gallu ymddiried yn gyfan gwbl |

| | |
|--|---|
| | <p>ynddyn nhw.</p> <ul style="list-style-type: none"> – Rwy'n teimlo'n agos at ddigon o bobl. <p>Mae sgôr unigrwydd ei gyfrifo ar gyfer pob ymatebydd yn seiliedig ar eu hatebion.</p> |
|--|---|

| | |
|---|---|
| 22 | Llesiant meddyliol cadarnhaol i bawb |
| Wedi'i fesur yn ôl | I'r rhai sy'n 16 oed neu drosodd, llesiant meddyliol yn ôl Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin (WEMWBS). Y mesuriad i gael ei gadarnhau ar gyfer plant. |
| Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru | <p>Isod ceir datganiadau ynglŷn â theimladau a meddyliau. Dewiswch yr ateb sy'n disgrifio orau eich profiad o bob un dros y pythefnos diwethaf.</p> <ul style="list-style-type: none"> – Rwyf wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol – Rwyf wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol – Rwyf wedi bod yn teimlo wedi ymlacio – Rwyf wedi bod â diddordeb mewn pobl eraill – Rwyf wedi bod â digon o egni – Rwyf wedi bod yn ymdrin â phroblemau'n dda – Rwyf wedi bod yn meddwl yn glir – Rwyf wedi bod yn teimlo'n dda amdanaf fi fy hun – Rwyf wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill – Rwyf wedi bod yn teimlo'n hyderus – Rwyf wedi gallu dod i benderfyniadau ar fy mhen fy hun – Rwyf wedi bod yn teimlo fy mod yn cael fy ngharu – Rwyf wedi bod â diddordeb mewn pethau newydd – Rwyf wedi bod yn teimlo'n llawen |

| | |
|-----------|--|
| 25 | Pobl sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a |
|-----------|--|

| | |
|---|--|
| | threftadaeth |
| Wedi'i fesur yn ôl | Y ganran o'r bobl (16+ oed) sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn. |
| Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru | <p>Mynychu</p> <ul style="list-style-type: none"> - Pa mor aml mae'r ymatebydd yn mynd i ddiwyddiadau neu weithgareddau celfyddydol, e.e. y sinema, cerddoriaeth fyw, i weld drama neu orielau celf. <p>Cyfranogiad</p> <ul style="list-style-type: none"> - Pa mor aml ymatebydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, ee cerddoriaeth, drama neu ddawns <p>Lle hanesyddol / treftadaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> - A yw ymatebydd wedi ymweld â lle hanesyddol / safle treftadaeth yn y 12 mis diwethaf <p>Amgueddfeydd</p> <ul style="list-style-type: none"> - Ydy'r ymatebydd wedi ymweld ag amgueddfa yn ystod y 12 mis diwethaf |

| | |
|---|---|
| 26 | Pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol |
| Wedi'i fesur yn ôl | Y ganran o'r oedolion sy'n siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg ac yn siarad Cymraeg yn feunyddiol a'r ganran o'r plant sy'n rhugl ac yn siarad Cymraeg gartref. |
| Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru | <p>Ar gyfer oedolion 16 oed a throsodd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Allwch chi siarad Cymraeg? - Pa un o'r opsiynau yma sy'n disgrifio orau eich gallu i siarad Cymraeg? <ul style="list-style-type: none"> o Rwy'n siarad Cymraeg yn rhugl o Rwy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg o Rwy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg yn unig o Rwy'n gallu dweud ychydig eiriau yn unig - Ydych chi'n siarad Cymraeg yn ddyddiol, yn wythnosol, yn llai aml, neu byth? |

| | |
|---|---|
| 27 | Pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon |
| Wedi'i fesur yn ôl | Cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos, wedi'i fesur ar wahân ar gyfer plant ac oedolion. |
| Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru | <ul style="list-style-type: none"> - Ydy'r ymatebydd wedi cymryd rhan mewn gemau neu weithgareddau awyr agored yn ystod y 4 wythnos diwethaf. <ul style="list-style-type: none"> o Pa mor aml mae'r ymatebydd wedi gwneud hyn yn y 4 wythnos ddiwethaf |

| | |
|--|---|
| | <ul style="list-style-type: none">- Ydy'r ymatebydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn y 4 wythnos diwethaf?<ul style="list-style-type: none">o Pa mor aml mae'r ymatebydd wedi gwneud hyn yn y 4 wythnos ddiwethaf- Ydy'r ymatebydd wedi cymryd rhan mewn gemau neu weithgareddau dan do yn y 4 wythnos diwethaf.<ul style="list-style-type: none">o Pa mor aml mae'r ymatebydd wedi gwneud hyn yn y 4 wythnos ddiwethaf ? |
|--|---|